Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH (ARBENNIG)** | **THE EXECUTIVE (EXTRAORDINARY)** |
| **DYDD IAU, 7 MAWRTH 2019 am 2.00 o'r gloch** | **THURSDAY, 7 MARCH 2019 at 2.00 pm** |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau neu Swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2** **MODERNEIDDIO YSGOLION AR YNYS MON - ADRODDIAD YN DILYN CYHOEDDI'R RHYBUDD STATUDOL AR GYFER CAU YSGOL GYNRADD BIWMARES, EHANGU AC ADNEWYDDU YSGOL LLANDEGFAN AC ADNEWYDDU YSGOL LLANGOED, A CHYMERADWYAETH O'R CYNNIG GWREIDDIOL** (Tudalennau 1 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**3** **MODERNEIDDIO YSGOLION - ADRODDIAD GWRTHWYNEBU: YSGOL Y GRAIG AC YSGOL TALWRN** (Tudalennau 29 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **7 Mawrth 2019** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn – Adroddiad yn dilyn cyhoeddi'r rhybudd statudol ar gyfer:**<br>• **Cau Ysgol Gynradd Biwmares, ehangu ac adnewyddu Ysgol Llandegfan ac adnewyddu Ysgol Llangoed.**<br>**a chymeradwyaeth o'r cynnig gwreiddiol** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Emrys Bebb** |
| **Aelodau Lleol:** | **Y Cynghorydd Lewis Davies**<br>**Y Cynghorydd Carwyn Jones**<br>**Y Cynghorydd Alun Roberts** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Rhesymau:**

Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, cyhoeddodd yr Awdurdod **Rybudd Statudol** o'i fwriad i:

a. Beidio â chefnogi Ysgol Gynradd Biwmares, Biwmares, Ynys Môn LL58 8HL sydd ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ac ehangu ac adnewyddu Ysgol Llandegfan ac adnewyddu Ysgol Llangoed. Mae'r ddwy ohonynt yn ysgolion cynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg ac sy'n cael eu cynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn. Bydd y ddwy ysgol ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed.

Cyhoeddwyd y **Rhybudd Statudol** ar 14 Ionawr 2019 ac roedd cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig yn dilyn. Felly, daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 10 Chwefror 2019. **Derbyniwyd 50 gwrthwynebiad i'r cynnig uchod.**

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae angen i'r cynigydd neu'r cynigwyr, sef Cyngor Sir Ynys Môn yn yr achos hwn, gyhoeddi adroddiad yn disgrifio unrhyw wrthwynebiad a gafwyd h.y. adroddiad gwrthwynebu. Gweler yr adroddiad gwrthwynebu yn **Atodiad 1**.

Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn delio gyda gwrthwynebiad i rybudd statudol yn dilyn trefn sydd sydd yn y Còd Trefniadaeth Ysgolion sydd mewn grym ers mis Hydref 2013.

Felly, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, rhan 5.3, mae angen i'r Pwyllgor Gwaith drwy'r adroddiad yma yn -

**"**penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau."

**Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith:**

i. Yn penderfynu cymeradwyo'r cynnig gwreiddiol sef:

I adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.

ii. Yn awdurdodi swyddogion i barhau gyda'r broses i adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.

**Cefndir:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol ar yr opsiynau ar gyfer moderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol am gyfnod rhwng Mehefin a Gorffennaf 2017. Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref, 2017, cynhaliwyd proses ymgynghori statudol o 20 Tachwedd, 2017 hyd at 6 Chwefror, 2018. Ystyriwyd yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2018 cyn i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried ar 26 Mawrth 2018.

Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith "ohirio gwneud penderfyniad ynghylch moderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol fel y gellir cynnal ymgynghoriad statudol newydd ar y cynigion ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal."

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori statudol ychwanegol o 22 Mai 2018 hyd at 2 Gorffennaf 2018. Yna, cafodd adroddiad ar yr ymgynghori statudol ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2018, penderfynwyd:
- Cymeradwyo Opsiwn 1, sef i adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.
- Bod trafodaethau gyda grwpiau gofal plant cyn-ysgol – "Little Puffins" a Ti a Fi – yn cael eu cynnal yn fuan i weld pa fath ddarpariaeth gofal plant cyn-ysgol sydd ei hangen yn yr ardal.
- Bod Cwlwm Seiriol yn cael ei gynnwys yn y Grwp Rhanddeiliaid ôl-penderfyniad fydd yn cael ei sefydlu.

Cyhoeddwyd rhybudd statudol o fwriad yr Awdurdod i weithredu'r cynnig ar 22 Tachwedd 2018. Roedd hyn yn golygu fod y cyfnod gwrthwynebu o hwy na 28 diwrnod yn dod i ben ar 27 Rhagfyr 2018 ac roedd nifer yn cwyno fod cyfnod hwn yn gorffen yn ystod y gwyliau Nadolig. Felly, er mwyn rhoi amser ychwanegol i randdeiliaid, cyhoeddwyd rhybudd statudol ychwanegol ar 14 Ionawr 2019 ac roedd y cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben ar 10 Chwefor 2019.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Roedd 28 opsiwn penodol wedi eu hystyried yn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol yn ardal Seiriol. Gwerthuswyd o'r opsiynau fel sail i'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad a sgoriwyd pob opsiwn ac amlinellwyd y rhesymau am ddiystyru rhai opsiynau yn yr adroddiadau ar yr ymgynghori.<br><br>Yn ogystal, cafodd 4 opsiwn gyflwynwyd gan randdeiliaid eu hasesu fel rhan o'r broses.<br>Nid oedd yr un o'r opsiynau eraill yn sgorio mor uchel yn erbyn 11 maen prawf ag oedd y cynnig yn ei sgorio. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydyw |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydyw - Mae'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer Band B gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2017. Rhagwelir bydd achos busnes am y cynllun uchod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym Medi / Hydref 2019. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Wedi eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad hyn |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Wedi eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad hyn |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Gweler cofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer 13 Gorffennaf 2018, 12 Mawrth 2018 a 2 Hydref 2017. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Wedi eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad hyn |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Wedi eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad hyn |
| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Ddim yn berthnasol |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim yn berthnasol |
| 4 | **Amgylcheddol** | Bydd camau lliniaru yn rhan o'r cais cynllunio |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Arall** | Ddim yn berthnasol |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 – Adroddiad Gwrthwynebiadau |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| 1. Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 18 Gorffennaf 2018, 26 Mawrth 2018 a 30 Hydref 2017.<br>2. Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer 13 Gorffennaf 2018, 12 Mawrth 2018 a 2 Hydref 2017.<br>3. Dogfennau Ymgynghori Anstatudol a Dogfennau Ymgynghori Statudol ac Adroddiadau Ymgynghori<br>4. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.<br>5. Llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig Ionawr 31 2014.<br>6. Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith dyddiedig Tachwedd 4 2013.<br>7. Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.<br>8. Cofnodion y cyfarfodydd ymgynghori gyda staff, llywodraethwyr a rhieni a gynhaliwyd yn Hydref a Tachwedd 2016 a Chwefror / Mawrth 2018 a Mehefin 2018.<br>9. Rhybudd statudol dyddiedig 14 Ionawr 2019 |

26 Chwefror 2019 Atodiad 1

## Adroddiad Gwrthwynebu

## 1. Cefndir

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013, cyhoeddodd yr Awdurdod **Rybudd Statudol** o'i fwriad i:

- Gymeradwyo Opsiwn 1, sef adnewyddu ac ehangu Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.
- Bod trafodaethau â'r grwpiau gofal plant cyn-ysgol – 'Little Puffins' a 'Ti a Fi' - yn cael eu cynnal yn fuan er mwyn pennu'r ddarpariaeth gofal plant cyn-ysgol sydd ei hangen yn yr ardal.
- Bod Cwlwm Seiriol wedi ei gynnwys yn y Grŵp Rhanddeiliaid ôl-benderfyniad a fydd yn cael ei sefydlu.

Cyhoeddwyd y **Rhybudd Statudol** ar 14 Ionawr 2019 ac fe roedd cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig dilynol. Gan hynny, daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 10 Chwefror 2019. **Derbyniwyd 50 o wrthwynebiadau i'r cynnig uchod.**

Dan adran 49 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'n rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr adroddiad gwrthwynebu") – sef y ddogfen hon.

Cyhoeddwyd y rhybudd statudol i gychwyn ar 22 Tachwedd 2018. Golygodd hyn bod y cyfnod gwrthwynebu hwy na 28 diwrnod wedi dod i ben ar 27 Rhagfyr 2018, a gwrthwynebodd sawl un i'r cyfnod hwn ddod i ben yn ystod gwyliau'r Nadolig. Gan hynny, i roi amser ychwanegol i'r rhanddeiliaid, cyhoeddwyd rhybudd statudol ychwanegol ar 14 Ionawr 2019, a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 10 Chwefror 2019.

## 2. Gwrthwynebiadau

Amlinellir ymateb yr Awdurdod i'r pwyntiau gwrthwynebu isod:

26 Chwefror 2019 Atodiad 1

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|
| **1. Amseriad yr hysbysiad cyn gwyliau'r Nadolig yn "sinigaidd"** | Gwnaed y penderfyniad i gau Ysgol Gynradd Biwmares gan Bwyllgor Gwaith yr Awdurdod ar 18 Gorffennaf 2018. Caniateir cyfnod o 26 wythnos o ddiwedd y cyfnod ymgynghori statudol i'r cynigwyr (Cyngor Sir Ynys Môn yn yr achos hwn) gyhoeddi cynnig statudol h.y. erbyn 30 Rhagfyr 2018. Yn y cyfamser, roedd swyddogion yn datblygu'r cynlluniau ar gyfer Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed. Ni feddyliwyd y byddai ymestyn y cyfnod 26 wythnos yn angenrheidiol. Fodd bynnag, gan fod cynifer o ymatebwyr wedi cwyno am amseriad cyhoeddiad y cynnig, ymofynnwyd am estyniad a chadarnhawyd yr estyniad gan Lywodraeth Cymru, a chyhoeddwyd rhybudd pellach ar 14 Ionawr 2019. |
| **2. Byddai cau'r ysgol yn cael "effaith arwyddocaol ar y dref a'i phreswylwyr" a "byddai'n ddinistriol".**<br>**Byddai cau'r ysgol hefyd yn "cymhlethu problemau cymdeithasol a demograffig" yn y dref. Mae'r adnoddau "yn y dref yn wych".**<br>**Dylai'r Cyngor feddwl am ddyfodol y gymuned.** | Gall cau'r ysgol gael effaith ar ba mor ddeniadol yw'r ardal leol i brynwyr tai arfaethedig. I'r gwrthwyneb, gall preswylwyr lleol ystyried peidio â chael ysgol mewn ardal benodol fel peth defnyddiol i wneud yr ardal yn fwy deniadol i brynwyr sy'n chwilio am ardal fwy tawel. Nid awgrymir effaith gadarnhaol nac effaith negyddol yma, ond cydnabyddir y posibilrwydd ar gyfer proffil preswylwyr dros amser. Trafodwyd y materion hyn yn yr Asesiad o Effaith ar y Gymuned a gyhoeddwyd â'r ddogfen ymgynghori ar 22 Mai 2018. |
| **3. Bod "y penderfyniad wedi bod yn un gwleidyddol" a bod ardal Seiriol yn "haeddu** | Seiliwyd penderfyniad yr Awdurdod ar 18 Gorffennaf 2018 i gau Ysgol Gynradd Biwmares ar y materion y manylir arnynt yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol. Ystyriwyd ysgol newydd ar gyfer ardal Seiriol, ac aseswyd a sgoriwyd y posibilrwydd hwn ochr yn ochr â nifer o opsiynau |

Tudalen 6

**Adroddiad Gwrthwynebu**



| | |
|---|---|
| **ysgol newydd".** | eraill. Sgoriwyd ac aseswyd yr opsiwn posib hwn o ysgol newydd ar gyfer Seiriol ochr yn ochr â nifer o opsiynau eraill yn erbyn 11 o ffactorau fel yr amlinellir yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol sef:<br><br>1. Codi safonau addysgol<br>2. Lleihau nifer y lleoedd gweigion<br>3. Lleihau'r amrywiaeth yn y gost fesul pen<br>4. Sicrhau bod adeiladau ysgolion yn creu'r amgylchedd dysgu gorau bosib<br>5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch<br>6. Cynyddu'r capasiti arweinyddol<br>7. Defnydd cymunedol o'r adeilad ysgol<br>8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>9. Ffactorau daearyddol a theithio<br>10. Costau<br>11. Argaeledd tir<br>Sgoriodd yr opsiwn posib hwn 71 o bwyntiau o'i gymharu â 79 ar gyfer yr opsiynau a ffafrir, h.y.<br>Opsiwn 2 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r rhieni yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffederaleiddio (79 pwynt)<br>Opsiwn 3 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r plant yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd (79 pwynt) |
| **4. Na dderbyniodd rhanddeiliaid "rybudd ffurfiol" o gyhoeddiad y rhybudd statudol.** | Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, gyrrwyd dolen i'r rhybudd statudol i'r holl rhanddeiliaid gan gynnwys corff llywodraethu'r tair ysgol (Ysgol Gynradd Biwmares, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed). Gwnaed hyn ar bob achlysur yr ail-gyhoeddwyd y rhybudd statudol. |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **5. Y dylid cau Ysgol Llangoed a'i throsglwyddo "i Fiwmares" gan mai hynny fyddai'r "peth fwyaf cost effeithiol a synhwyrol i wneud", ac y byddai cau Ysgol Biwmares ac ehangu "Ysgol Llangoed yn ac am fod yn wastraff arian" a gall "aros heb ei ddefnyddio". Yn ogystal â hyn, creda rhai "na fydd rhieni'n gyrru eu plant i Langoed".** | Aseswyd a sgoriwyd yr opsiwn posib hwn o gau Ysgol Llangoed a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Biwmares ochr yn ochr â nifer o opsiynau eraill yn erbyn 11 o ffactorau fel yr amlinellir yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol sef:<br>1. Codi safonau addysgol<br>2. Lleihau nifer y lleoedd gweigion<br>3. Lleihau'r amrywiaeth yn y gost fesul pen<br>4. Sicrhau bod adeiladau ysgolion yn creu'r amgylchedd dysgu gorau bosib<br>5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch<br>6. Cynyddu'r capasiti arweinyddol<br>7. Defnydd cymunedol o'r adeilad ysgol<br>8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>9. Ffactorau daearyddol a theithio<br>10. Costau<br>11. Argaeledd tir<br>Sgoriodd yr opsiwn posib hwn 64 o bwyntiau o'i gymharu â 79 ar gyfer yr opsiynau a ffafrir h.y.<br>Opsiwn 2 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r rhieni yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffederaleiddio (79 pwynt)<br>Opsiwn 3 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r plant yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd (79 pwynt) |
| **6. Nad yw'r Cyngor wedi ystyried syniadau amgen ac wedi "anwybyddu'r cyfle rhyfeddol i gyfuno henoed y cyfleuster gofal ychwanegol arfaethedig newydd (os gaiff** | Yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol, aseswyd a sgoriwyd cyfanswm o 20 opsiwn. Cafodd dau opsiwn y sgôr uchaf, h.y.<br>Opsiwn 2 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r rhieni yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffederaleiddio (79 pwynt)<br>Opsiwn 3 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r plant yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd (79 pwynt) |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **ei adeiladu) gyda phlant yr ysgol". Mae rhieni'n barod i wneud hynny.** | Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol o 20 Tachwedd 2017 tan 6 Chwefror 2018, cyflwynodd Pwyllgor Ymateb Ysgol Gynradd Biwmares bedwar opsiwn amgen:<br>A. Cau Ysgol Llangoed a moderneiddio Ysgol Biwmares i fod yn Ysgol Bro Seiriol<br><br>B. Lleihau maint Ysgol Gynradd Biwmares a defnyddio rhan o'r adeilad fel meithrinfa neu ddarpariaeth addysgol arall.<br><br>C. Datblygu cynnig addysgol gwahanol iawn yn Ysgol Biwmares i ddenu mwy o ddisgyblion o'r ardal, ar sail antur, gofal a chreadigrwydd.<br><br>D. Datblygu model arloesol ble mae disgyblion o Ysgol Biwmares a henoed o'r cyfleuster gofal ychwanegol yn dysgu ac yn gwneud gweithgareddau ar y cyd.<br><br>Sgoriwyd yr opsiynau amgen gan swyddogion yr Awdurdod fel ymateb i'r opsiynau amgen a dderbyniwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Biwmares. Ystyriwyd y manteision, yr anfanteision a'r risgiau pe bai bob opsiwn yn cael ei ystyried, a phrisiwyd bob un yn gyllidol. Amlinellwyd asesiad o'r opsiynau hyn yn llawn yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2018. |
| **7. Na chyfathrebwyd y rhybudd statudol i rieni.** | Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, gyrrwyd dolen i'r rhybudd statudol i'r holl rhanddeiliaid gan gynnwys corff llywodraethu'r tair ysgol (Ysgol Gynradd Biwmares, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed). Gwnaed hyn ar bob achlysur yr ail-gyhoeddwyd y rhybudd statudol. |
| **8. Nad oedd y Cyngor yn cadw at God Trefniadaeth Ysgolion – dim rhybudd i rieni a llywodraethwyr.** | O 21 Ionawr 2019, mae swyddog CSYM wedi gosod rhybudd statudol (wedi'i ddyddio 14 Ionawr 2019) ar fynedfeydd Ysgol Gynradd Biwmares. Er bod swyddogion CSYM wedi gofyn i'r Pennaeth osod y rhybudd statudol ar y lleoliadau gofynnol, ni wnaed hyn. |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **9. Gwrthwynebodd y disgyblion mewn erthygl yn dymuno cefnogaeth Siôn Corn i rwystro cau'r ysgol.** | Derbyniwyd 22 lythyr a llun gwrthwynebiad ac yna erthygl ynglŷn ag eisiau Siôn Corn eu cefnogi i frwydro cau eu hysgol gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Biwmares yn Rhagfyr 2018. |
| **10. Teimla rhai nad oes unrhyw ddewis ynglŷn â phle i yrru eu plant gan fod y rhybudd yn "nodi mai Ysgol Llangoed yw'r ysgol orfodol" a bod y "dyddiad cau" wedi newid.** | Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y mae eu plant yn mynychu. Ysgol Llangoed yw'r ysgol a ddynodir gan yr Awdurdod i blant symud o Ysgol Gynradd Biwmares yno pan fydd hi'n cau. Byddai'r Awdurdod yna'n darparu trafnidiaeth i'r disgyblion hyn i Ysgol Llangoed.<br>Mae dyddiad gweithredu'r cynigion wedi eu newid i ganiatáu gwaith ychwanegol i gael ei gynnal ar Ysgol Llandegfan. |
| **11. Nad yw'r Awdurdod wedi dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** | Ystyriwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) fel rhan o'r ymgynghoriad statudol. Roedd yr Asesiad Effaith, a ddaeth law yn llaw â'r ddogfen ymgynghori statudol, yn amlinellu sut y rhagwelir y byddai'r cynnig dan ystyriaeth yn cyfrannu at y 7 nod lles. Bu i'r Asesiad Effaith ar y Gymuned hefyd asesu effeithiau posib y cynnig ar y Gymuned, fel y nodir gan y rhanddeiliaid. |
| **12. Nid oedd Pwyllgor Sgriwtini 2 Hydref 2017, 12 Mawrth 2018, 13 Gorffennaf 2018 ac Awst 2018 wedi eu cyfansoddi'n gywir.** | Nid oedd gan y 2 gynrychiolydd rhiant ac 1 cynrychiolydd o grefyddau neu enwadau arall fel yn y Cyfansoddiad ar y dyddiadau a restrir. Er hynny, rôl y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 13 Gorffennaf 2018 oedd i ystyried yr holl ffeithiau perthnasol ac i wneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf 2018. Cyflwynwyd adroddiad cyhoeddus cynhwysfawr i'r Pwyllgor a cyflwynwyd yr holl ffeithiau perthnasol gan gynnwys adborth gan randdeiliaid. Roedd yr ymgysylltu cyhoeddus yn helaeth ac yn cwrdd gyda gofynion statudol – roedd hyn yn cynnwys cyfanswm o 9 gyfarfod cyhoeddus yn ward Seiriol rhwng Mehefin 2017 a Mehefin 2018. |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **13. Bod y Cyngor wedi colli'r cyfle yn fan hyn i gryfhau bas y disgyblion drwy ganiatáu i'r Cylch Ti a Fi i gydweithredu â'r ysgol i ddarparu cyfleuster cofleidiol a fyddai'n defnyddio adeiladau sy'n bodoli'n barod, ac felly'n lleihau nifer y llefydd gweigion ac yn gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau.** | Gyda phrosiectau moderneiddio ysgolion yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi disgwyl dan ar ôl y cyfnod gwrthwynebu i sefydlu grŵp rhanddeiliaid. Bydd trafodaethau â grwpiau megis Little Puffins a Ti a Fi yn cychwyn yn fuan wedir cyfnod hynny. |
| **14. Rhai rhanddeiliaid yn gwrthwynebu'r gost o gau'r ysgol a dinistrio'r adeilad** | Roedd cost pob un o'r 20 opsiwn ar gyfer ardal Seiriol yn un o'r ffactorau a ystyriwyd yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol.<br>1. Codi safonau addysgol<br>2. Lleihau nifer y lleoedd gweigion<br>3. Lleihau'r amrywiaeth yn y gost fesul pen<br>4. Sicrhau bod adeiladau ysgolion yn creu'r amgylchedd dysgu gorau bosib<br>5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch<br>6. Cynyddu'r capasiti arweinyddol<br>7. Defnydd cymunedol o'r adeilad ysgol<br>8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>9. Ffactorau daearyddol a theithio<br>10. Costau<br>11. Argaeledd tir |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| | Rhagwelwyd y byddai ysgol gynradd newydd yn ardal Seiriol yn costio £7.3 miliwn. Bydd yr opsiwn a ddewiswyd yn llawer llai a bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu 65% o'r prosiect.<br>Nid oes bwriad i ddinistrio'r ysgol, ond bod y datblygiad yn digwydd gyda chydymdeimlad. |
| **15. Ni edrychwyd ar yr opsiwn i adeiladu ysgol newydd yn ddigon trylwyr / dylid ystyried Biwmares fel uwch-ysgol / CSYM i fuddsoddi mewn ysgol newydd ar safle newydd ym Miwmares** | Ystyriwyd yr opsiwn hwn ar gyfer ardal Seiriol yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol. Aseswyd a sgoriwyd y posibilrwydd o ysgol newydd gyda nifer o opsiynau eraill. Aseswyd a sgoriwyd yr opsiwn posib o ysgol newydd i Seiriol yn erbyn 11 o ffactorau fel yr amlinellir yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol sef:<br>1. Codi safonau addysgol<br>2. Lleihau nifer y lleoedd gweigion<br>3. Lleihau'r amrywiaeth yn y gost fesul pen<br>4. Sicrhau bod adeiladau ysgolion yn creu'r amgylchedd dysgu gorau bosib<br>5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch<br>6. Cynyddu'r capasiti arweinyddol<br>7. Defnydd cymunedol o'r adeilad ysgol<br>8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>9. Ffactorau daearyddol a theithio<br>10. Costau<br>11. Argaeledd tir<br>Sgoriodd yr opsiwn posib hwn 71 o bwyntiau o'i gymharu â 79 ar gyfer yr opsiynau a ffafrir h.y.<br>Opsiwn 2 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r rhieni yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffederaleiddio (79 pwynt)<br>Opsiwn 3 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r plant yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd (79 pwynt) |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **16. Rhanddeiliad yn anghytuno â chostau atgyweirio a chostau cynnal a chadw'n cael eu defnyddio fel rheswm i gau'r ysgol. Anghytuno â niferoedd disgyblion yn cael eu defnyddio fel rheswm i gau'r ysgol gan fod y rhain yn "cynyddu".** | Cost ôl-groniad cynnal a chadw yw'r gost a gysylltir â chodi cyflwr yr adeilad i fyny i'r cyflwr disgwyliedig sy'n ddiogel ar gyfer disgyblion, staff, rhieni a defnyddwyr eraill o'r ysgol, h.y. gwaith sy'n cydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch statudol. Cyfrifir hyn gan syrfewyr cymwysedig yn dilyn arolwg o'r ysgol. Roedd ôl-groniad cynnal a chadw Ysgol Gynradd yn un o sawl ffactor yr ystyriwyd gan y Pwyllgor Gwaith wrth wneud y penderfyniad ar y 18 Gorffennaf 2018 i gau Ysgol Gynradd Biwmares. Bydd niferoedd disgyblion yn parhau i fod yn isel i'w cymharu â niferoedd disgyblion yn 1996 er enghraifft, er bod rhagwelediad ohonynt yn cynyddu rhywfaint. |
| **17. Ni ddylai'r Cyngor fod wedi nodi "y byddai'n rhaid i Ysgol Gynradd Biwmares gau am 2 flynedd os byddai'n parhau'n agored ac yn rhannu safle â'r cyfleuster".** | Pe dewiswyd yr opsiwn hwn, roedd yn hanfodol i Gyngor Sir Ynys Môn ddatgan hyn gan y byddai wedi bod yn ganlyniad o ddewis yr opsiwn hwn. Mae diogelwch disgyblion yn ystod unrhyw waith arfaethedig ar ysgol weithredol yn hollbwysig i Gyngor Sir Ynys Môn. |
| **18. Ailystyriwch y penderfyniad i gau'r ysgol – mae safle Biwmares yn well na'r 2 ysgol arall / Ailystyried y penderfyniad a chau Llangoed a Llandegfan ac adnewyddu Biwmares. Dim ond angen ystyried cost un** | Aseswyd yr opsiwn hwn ochr yn ochr â nifer o opsiynau eraill yr amlinellir yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol sef:<br>1. Codi safonau addysgol<br>2. Lleihau nifer y lleoedd gweigion<br>3. Lleihau'r amrywiaeth yn y gost fesul pen<br>4. Sicrhau bod adeiladau ysgolion yn creu'r amgylchedd dysgu gorau bosib<br>5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **ysgol i'w rhedeg.** | 6. Cynyddu'r capasiti arweinyddol<br>7. Defnydd cymunedol o'r adeilad ysgol<br>8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>9. Ffactorau daearyddol a theithio<br>10. Costau<br>11. Argaeledd tir<br>Fodd bynnag, ni sgoriwyd yr opsiwn hwn mor uchel â'r opsiwn a ffafrir h.y.<br>Opsiwn 2 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r rhieni yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffederaleiddio (79 pwynt)<br>Opsiwn 3 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r plant yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd (79 pwynt) |
| **19. Nid yw'r ffyrdd i Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan yn addas "gan fod y ddwy ffordd wedi cau yn rheolaidd oherwydd llifogydd a chyflyrau tywydd gwael". Pryderon ynglŷn â thagiant traffig a'r amgylchedd.** | Eir i'r afael â materion traffig fel rhan o'r Asesiad Effaith Traffig a gaiff ei gynnal ar gyfer bob prosiect newydd. Barn yr Awdurdod yw y byddai datblygiad cynlluniad trafnidiaeth posib yn ardal Seiriol yn rhagfarnu unrhyw argymhellion neu benderfyniadau a fydd efallai yn cael eu gwneud gan swyddogion y Cyngor neu gontractwyr annibynnol. Gan hynny, cynhelir Asesiad Effaith Traffig cyn dyddiad gweithredu'r cynnig.<br>Mae'r cyfrifon yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol yn dangos na fyddai defnyddio bws yn cael effaith fwy ar yr amgylchedd na chau Ysgol Biwmares. Cynhwysir gwybodaeth ar agweddau amgylcheddol yn Adran 12 o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol. |
| **20. Mae'r Awdurdod yn fodlon gyrru disgyblion o Ysgol Biwmares i Ysgol Llangoed. Er hynny, cafodd Ysgol Llangoed "eu plant i** | Aseswyd yr opsiwn hwn ochr yn ochr â nifer o opsiynau eraill yr amlinellir yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol sef:<br>1. Codi safonau addysgol<br>2. Lleihau nifer y lleoedd gweigion<br>3. Lleihau'r amrywiaeth yn y gost fesul pen |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **chwarae ar yr iard gan nad yw'r neuadd yn ddigon mawr". Roeddent yn teimlo bod yr Awdurdod yn fodlon gwasgu mwy o blant i mewn i Ysgol Llangoed tra bod gan Fiwmares ddigonedd mwy o le ar gyfer mwy o blant yn ogystal â thir i ehangu".** | 4. Sicrhau bod adeiladau ysgolion yn creu'r amgylchedd dysgu gorau bosib<br>5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch<br>6. Cynyddu'r capasiti arweinyddol<br>7. Defnydd cymunedol o'r adeilad ysgol<br>8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>9. Ffactorau daearyddol a theithio<br>10. Costau<br>11. Argaeledd tir<br>Fodd bynnag, ni sgoriwyd yr opsiwn hwn mor uchel â'r opsiwn a ffafrir h.y.<br>Opsiwn 2 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r rhieni yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffederaleiddio (79 pwynt)<br>Opsiwn 3 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r plant yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd (79 pwynt) |
| **21. Dim ystyriaeth i gynnydd posib mewn niferoedd oherwydd prosiect y Wylfa Newydd** | Drwy gydol yr holl brosesau ymgynghori, nododd swyddogion CSYM nad oedd penderfyniad wedi'i wneud i roi caniatâd i brosiect Wylfa Newydd fynd yn ei flaen. Gan hynny, nes i'r caniatâd olaf ddod drwodd, nid oedd CSYM yn gallu cynnwys yr effaith posib o ddisgyblion ychwanegol angen addysg mewn ysgolion yn Ynys Môn yn ffurfiol mewn rhagamcanion disgyblion. Ar amser ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r project yn anffodus yn cael ei oedi a ni fydd swyddogion CSYM, o leiaf am yn awr, yn ystyried effaith posib Wylfa Newydd oherwydd bod y prosiect yn cael ei oedi. |
| **22. Biwmares fyddai'r unig dref yng Nghymru heb ysgol ac mae'r "hanes maith o addysg yn y dref yn cael ei** | Nid oes gofyn statudol i dref fod ag ysgol. Manylwyd ar y materion posib sy'n wynebu Ysgol Gynradd Biwmares yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol ac roedd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn gwbl ymwybodol o hanes addysg yn ardal Seiriol pan wnaethant eu penderfyniad ar 18 Gorffennaf 2018. |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **anwybyddu". Lleolir yr ysgol yn unig fwrdeistref Ynys Môn.** | |
| **23. Dim trafodaethau gyda 'Little Puffins' a Ti a Fi, statws y grŵp rhanddeiliaid ôl-benderfyniad** | Gyda phrosiectau moderneiddio ysgolion yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi disgwyl dan ar ôl y cyfnod gwrthwynebu i sefydlu grwp rhanddeiliaid. Bydd trafodaethau â grwpiau megis Little Puffins a Ti a Fi yna'n cychwyn. |
| **24. Annhebygol y byddai rhieni'r gyrru eu plant i Ysgol Llangoed, yn hytrach yn eu gyrru i ysgolion cynradd eraill yn Ynys Môn neu ym Mangor.** | Dywedwyd hyn hefyd yn y cyfarfodydd ymgynghori. Yn unol â'r gyfraith genedlaethol, gall rhieni ddewis pa ysgol mae eu plentyn yn mynychu. Fel y nodir uchod, ni pharhaodd swyddogion yr Awdurdod ymhellach o ran cynlluniau trafnidiaeth am y rhesymau canlynol:<br>• Byddai ymgais i amcangyfrif lle'r â disgyblion o unrhyw ysgol a all gau yn rhagfarnu unrhyw benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith.<br>Er gwaethaf penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2018, bydd materion traffig a theithio'n cael eu cyfeirio fel rhan o Asesiad Effaith Traffig sy'n cael ei gynnal ar gyfer bob prosiect newydd. Barn yr Awdurdod yw y byddai datblygiad cynlluniad trafnidiaeth posib yn ardal Seiriol yn rhagfarnu unrhyw argymhellion neu benderfyniadau a fydd efallai yn cael eu gwneud gan swyddogion y Cyngor neu gontractwyr annibynnol. |
| **25. Cynnig yn diystyru economi'r ardal.** | Asesodd yr Asesiad Effaith ar y Gymuned yr effaith posib ar y gymuned o ganlyniad i gau'r ysgol. Gall cau'r ysgol gael effaith ar ba mor ddeniadol yw'r ardal leol i brynwyr tai arfaethedig. I'r gwrthwyneb, gall preswylwyr lleol ystyried peidio â chael ysgol mewn ardal benodol fel peth defnyddiol i wneud yr ardal yn fwy deniadol i brynwyr sy'n chwilio am ardal fwy tawel. Nid awgrymir effaith gadarnhaol nac effaith negyddol yma, ond cydnabyddir y posibilrwydd ar gyfer proffil preswylwyr dros amser. Trafodwyd y materion hyn yn yr Asesiad o Effaith ar y Gymuned a gyhoeddwyd â'r ddogfen ymgynghori ar 22 Mai 2018. |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **26. Ni ymgysylltodd CSYM â llywodraethwyr ynglŷn â chynigion amgen.** | Derbyniodd yr Awdurdod yr opsiynau ychwanegol a gynigwyd gan Bwyllgor Ymateb Ysgol Gynradd Biwmares a'u hasesu'n llawn ochr yn ochr â'r 20 opsiwn posib arall er nad oedd rhaid iddo wneud hynny. |
| **27. Ymgysylltiad â phlant yn docynistaidd.** | Noda'r Cod Trefniadaeth Ysgolion: "Rhaid i hyn [ymgynghoriad â disgyblion] gynnwys, man lleiaf, ymgynghoriad â chynghorau ysgol yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt". Gwnaed hyn yn y 3 ysgol sy'n rhan o'r cynnig hwn.<br>Eglurwyd i'r disgyblion yn y cyfarfodydd bod ymgynghoriad wedi digwydd â'r oedolion yn y gymuned, a bod hwn yn gyfle i blant o'r ysgolion i fynegi eu barn ynglŷn â chynlluniau'r Cyngor i foderneiddio ysgolion. Pwysleisiwyd bod eu barn yn bwysig gan mai nhw yw'r rhai sy'n mynychu'r ysgolion. Dywedwyd wrthynt fod yr wybodaeth yr oeddent yn ei rhoi am fod yn cael ei drosglwyddo i adroddiad a fyddai'n cael ei gyflwyno i Gynghorwyr y Cyngor fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol.<br><br>Eglurwyd mai'r rhesymau am foderneiddio oedd:<br>• Bod gormod o leoedd gweigion neu dim digon o leoedd mewn rhai ysgolion ym Môn<br>• Ei fod yn angenrheidiol sicrhau bod bob disgybl yn cael addysg dda<br>• Ei fod yn angenrheidiol sicrhau bod yr ysgol yn fodern a'i bod yn cynnig offer da<br>• Bod y Cyngor yn gwario ei arian ar ysgolion mewn ffordd deg<br><br>Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r plant:<br>1. Beth oedd y disgyblion yn ei hoffi am eu hysgolion presennol?<br>2. Beth yw eich barn ar y cynnig i gau Ysgol Biwmares, a throsglwyddo'r plant i Ysgol Llangoed neu Ysgol Llandegfan?<br>3. A oeddent yn cytuno â'r rhesymau dros newid?<br>4. Unrhyw sylwadau eraill |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **28. Gwybodaeth gamarweiniol ac anghywirdebau yn y ddogfen.** | Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn amlinellu'r wybodaeth sydd ei hangen yn y ddogfennaeth ymgynghori. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth hon. |
| **29. Asesiad o effaith ar y gymuned yn annigonol / "nid yw CSYM wedi cyflawni eu dyletswydd o ystyried yr effaith ehangach a ddaw yn sgil cau'r ysgol".** | Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn amlinellu'r wybodaeth sydd ei angen ar gyfer yr Asesiadau Effaith ar y Gymuned, a bu i'r Awdurdod lynu wrth y rhain yn ystod y broses ymgynghori statudol yn unol â gofynion y gyfraith. |
| **30. Ni fydd plant yn gallu cerdded i'r ysgol nac ychwaith mynd i'w hysgol leol.** | Nid yw'n bosib i bob plentyn allu cerdded i'r ysgol. Mae ysgolion cynradd eraill ar yr ynys lle na all plant gerdded i'r ysgol. Arweinir plant i'r ysgolion hynny mewn amryw o ffyrdd. Bydd materion traffig yn cael eu cyfeirio fel rhan o Asesiad Effaith Traffig sy'n cael ei gynnal ar gyfer bob prosiect newydd. |
| **31. Pryder ynglŷn â phlant yn symud i ysgol arall.** | Fel y disgrifir uchod, aseswyd nifer o ffactorau gan y Pwyllgor Gwaith cyn iddo wneud ei benderfyniad ar 18 Gorffennaf 2018. Pan fo unrhyw blentyn yn symud i ysgol arall, bydd ef neu hi'n derbyn yr un safon o ofal. Fodd bynnag, os oes gan blentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Datganiad sy'n adnabod Anghenion Addysgol Arbennig plentyn, amcan y Datganiad yw sicrhau bod y plentyn yn derbyn y gefnogaeth gywir i'w alluogi / ei galluogi i wneud cynnydd yn yr ysgol. Byddai'r Datganiad hwn yn aros yn ddilys i unrhyw blentyn dan sylw pa bynnag ysgol y maent yn ei mynychu. |
| **32. Ni ddywedodd y ddogfen ymgynghori statudol "y bydd disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Llangoed ar 1 Mai** | Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol y mae eu plant yn mynychu. Ysgol Llangoed yw'r ysgol a ddynodir gan yr Awdurdod i blant symud o Ysgol Gynradd Biwmares yno pan fydd hi'n cau. Byddai'r Awdurdod yna'n darparu trafnidiaeth i'r disgyblion hyn i Ysgol Llangoed. |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **2012 pan fydd Ysgol Biwmares yn cau, yn amodol ar ddewis rhieniol ac yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion yr Awdurdod ar y pryd. Bydd Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed yn parhau i fod yn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg".** | Mae dyddiad gweithredu'r cynigion wedi eu newid i ganiatáu i waith ychwanegol gael ei gynnal ar Ysgol Llandegfan. |
| **33. Yn wreiddiol, roedd tir yr ysgol wedi ei ddynodi i'w ddefnyddio ar gyfer ysgol i Fiwmares. Niferoedd disgyblion yn cynyddu / dylid gwneud Ysgol Biwmares yn llai a'i adnewyddu, gyda mwy o le i ddisgyblion, wrth i'r niferoedd rhagweladwy gynyddu. / Os na fygythiwyd yr ysgol am gyn hired, byddai niferoedd wedi cynyddu.** | Nid oes unrhyw gymal i wrthdroi ar safle Ysgol Gynradd Biwmares h.y. nid oes unrhyw gymal amodol yng ngweithredoedd Ysgol Gynradd Biwmares i nodi y dylai ddychwelyd i'w bwrpas gwreiddiol os gwerthir y safle. Cafodd yr opsiwn i leihau maint Ysgol Gynradd Biwmares ac i'w adnewyddu ei asesu yn yr adroddiad ar y ddogfen ymgynghori anstatudol yn erbyn 11 o ffactorau fel yr amlinellir yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol sef:<br>1. Codi safonau addysgol<br>2. Lleihau nifer y lleoedd gweigion<br>3. Lleihau'r amrywiaeth yn y gost fesul pen<br>4. Sicrhau bod adeiladau ysgolion yn creu'r amgylchedd dysgu gorau bosib<br>5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch<br>6. Cynyddu'r capasiti arweinyddol<br>7. Defnydd cymunedol o'r adeilad ysgol<br>8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>9. Ffactorau daearyddol a theithio<br>10. Costau<br>11. Argaeledd tir |

<table>
<tr><td></td><td>Sgoriodd yr opsiwn posib 72 o bwyntiau o'i gymharu â 79 ar gyfer yr opsiynau a ffafrir h.y.<br>Opsiwn 2 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r rhieni yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffederaleiddio (79 pwynt)<br>Opsiwn 3 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi dewis i'r plant yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd (79 pwynt)<br>Isod mae tabl o nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Biwmares dros y blynyddoedd diwethaf:<br><br>
<table>
<tr><th>1996</th><th>2001</th><th>2006</th><th>2007</th><th>2008</th><th>2009</th><th>2010</th><th>2011</th><th>2012</th><th>2013</th><th>2014</th><th>2015</th><th>2016</th><th>2017</th><th>2018</th></tr>
<tr><td>189</td><td>144</td><td>108</td><td>124</td><td>117</td><td>103</td><td>90</td><td>92</td><td>81</td><td>71</td><td>56</td><td>50</td><td>39</td><td>40</td><td>42</td></tr>
</table>
<br>Dechreuodd niferoedd leihau dros 20 mlynedd yn ôl, ac mae'n amlwg bod demograffeg yn ffactor yma.</td></tr>
<tr><td>34. ALl heb archwilio'r posibilrwydd o wneud i YGB 'ddisgleirio' yn y 21G wrth ddefnyddio grantiau.</td><td>Yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol, aseswyd a sgoriwyd cyfanswm o 20 opsiwn. Aseswyd a sgoriwyd bob opsiwn ochr yn ochr â nifer o opsiynau eraill yn erbyn 11 o ffactorau fel yr amlinellir yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol sef:<br>1. Codi safonau addysgol<br>2. Lleihau nifer y lleoedd gweigion<br>3. Lleihau'r amrywiaeth yn y gost fesul pen<br>4. Sicrhau bod adeiladau ysgolion yn creu'r amgylchedd dysgu gorau bosib<br>5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch<br>6. Cynyddu'r capasiti arweinyddol<br>7. Defnydd cymunedol o'r adeilad ysgol<br>8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>9. Ffactorau daearyddol a theithio<br>10. Costau</td></tr>
</table>

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| | 11. Argaeledd tir<br>Aseswyd bob opsiwn o safbwynt cyllidol gan ddefnyddio'r 11 ffactor uchod. Yr opsiwn a fyddai wedi sgorio uchaf fyddai'r un a fyddai CSYM wedi ei ymgymryd ag ef, a byddai achos busnes wedi cael ei gasglu. |
| **35. Roedd "cynnal yr ymgynghoriad ar gau Ysgol Gynradd Biwmares ar yr un pryd â'r ymgynghoriad ar y Cyfleuster Gofal a Rennir" yn golygu bod "pobl leol yn drysu a bod yr henoed a'r ifanc wedi eu gosod i fyny i ymladd yn erbyn ei gilydd."** | Roedd y ddogfen ymgynghori anstatudol a gyhoeddwyd ym Mehefin 2017 yn nodi: "Bydd gwaith i rannu gwybodaeth ynglŷn ag opsiwn dewisol y Cyngor am safle Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol yn cael ei gynnal yn y misoedd nesaf. Safle Ysgol Gynradd Biwmares yw'r safle dewisol. Ni fydd datblygu cyfleusterau Gofal Ychwanegol ar y safle yn effeithio canlyniad yr ymgynghoriad ar ddyfodol Ysgol Biwmares. Rhagwelir y gellir lleoli'r datblygiad hwn ar yr un safle â'r ysgol bresennol, yn amodol ar ystyriaethau arferol." Gan hynny, cynhaliwyd y ddau ymgynghoriad yn gydamserol er mwyn i rhanddeiliaid dichonadwy allu meddiannu gwybodaeth ar y ddau ymgynghoriad o fewn cyfnod byr. Nid oedd unrhyw bwrpas sinistr o wneud hyn. |
| **36. CSYM "ar frys i brosesu cau'r ysgol cyn i'r gyfraith newid. Drwy wneud hyn, efallai bod y Cyngor yn ymddangos fel petaent wedi ufuddhau i'r gyfraith ond maent yn diystyru teimlad y genedl ynglŷn â bwriadau'r llywodraeth, sy'n pasio deddfau i amddiffyn y fath ysgolion".** | Daeth y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig i rym ar 1 Tachwedd 2018, a oedd cyn dyddiad y gwrthwynebiad hwn. Fodd bynnag, nid yw adolygiad y Cod yn ôl-weithredol ac mae'r Awdurdod yn glynu wrth y Cod. Dylid nodi, fodd bynnag, mai rhagdybiaeth yn erbyn cau yw hwn, ac nad yw'r Cod Gweithdrefn diwygiedig yn nodi na ddylid cau ysgolion gwledig. Yn bendant, mae'r Cod Trefniadaeth yn nodi bod blaenoriaeth i ddarparu addysg o ansawdd uchel mewn ysgolion bach a gwledig, a hefyd yn adnabod mai addysg yw'r brif ystyriaeth.<br><br>Mae tudalen 3 o'r Cod Trefniadaeth yn dweud: "Os yw cynigydd wedi dechrau ymgynghori cyn 1 Tachwedd 2018 bydd **rhaid** i'r cynnig â gyhoeddwyd ei benderfynu yn unol â fersiwn gyntaf y Cod. Ystyrir y bydd ymgynghoriad wedi dechrau pan fydd dogfen ymgynghori, fel sy'n ofynnol gan adran 3.2 o'r fersiwn gyntaf o'r cod, wedi'i chyhoeddi". |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **37. “Nid yw’r Cyngor yn gwrando ar ein barn.”** | Fel nodwyd yn y dogfennau ymgynghori, mae’r Awdurdod o hyd yn awyddus i glywed barn rhanddeiliaid ar y ffordd ymlaen o ran darpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol. Ni wnaethpwyd penderfyniad tan y derbyniwyd adborth gan y rhanddeiliaid fel rhan o’r prosesau anstatudol a statudol. Cyflwynwyd adroddiadau ar y prosesau ymgynghori i’r Pwyllgor Gwaith iddo allu gwneud ei benderfyniadau.<br>Mae’n rhaid i’r Awdurdod ystyried nifer o ffactorau wrth gyrraedd ei benderfyniad, a derbynnir y byddai’n amhosib ceisio plesio pawb. |
| **38. Ymholodd rhai ynglŷn â “beth oedd wedi digwydd i gyllideb cynnal a chadw YGB”?** | Dyrennir cyllideb cynnal a chadw Ysgol Gynradd Biwmares bob blwyddyn yn ôl fformiwla. Gwneir hyn yn yr un ffordd ar gyfer bob ysgol gynradd yn Ynys Môn. Fodd bynnag, mae gan Ysgol Gynradd Biwmares ôl-groniad cynnal a chadw uchel. |
| **39. CSYM wedi ceisio am ddad-restru “pan fo’n gyfleus iddyn nhw”** | Nid yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud cais i ddad-restru Ysgol Gynradd Biwmares. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi holi corff gwarchodaeth Cymru h.y. CADW ynglŷn â dad-restru’r ysgol ond ni fyddai CADW’n caniatáu i hynny ddigwydd. Gan hynny, beth bynnag a fydd yn digwydd i’r adeilad yn y dyfodol, bydd angen caniatâd CADW ar gyfer unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud iddo. |
| **40. Dylai CSYM adeiladu ysgol newydd ar y safle Lairds ochr yn ochr â thai cymysg, gan “gynnwys tai fforddiadwy a chymdeithasol, ac unedau diwydiannol ysgafn”.** | Nid yw safle’r Lairds yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd iddo gael ei ddatblygu. |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **41. Bydd cau YGB yn "tanseilio pa mor ddeniadol yw byw ym mhen gogledd ddwyrain belt cymudwyr Llanfairpwll-Biwmares a bydd pobl yn penderfynu byw ar y tir mawr".** | Gall cau'r ysgol gael effaith ar ba mor ddeniadol yw'r ardal leol i brynwyr tai arfaethedig. I'r gwrthwyneb, gall preswylwyr lleol ystyried peidio â chael ysgol mewn ardal benodol fel peth defnyddiol i wneud yr ardal yn fwy deniadol i brynwyr sy'n chwilio am ardal fwy tawel. Ni awgrymir effaith gadarnhaol nac effaith negyddol yma, ond cydnabyddir y posibilrwydd ar gyfer proffil preswylwyr dros amser. Trafodwyd y materion hyn yn yr Asesiad o Effaith ar y Gymuned a gyhoeddwyd â'r ddogfen ymgynghori ar 22 Mai 2018. |
| **42. Angen gweledigaeth hirdymor "ar gyfer de ddwyrain Môn".** | Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio ar hyn ochr yn ochr ag aelodau etholedig am nifer o fisoedd ac yn gweithio gyda 5 ward i ddatblygu Cynllun Lle. Bydd hyn yn cael ei wneud yn Seiriol cyn bo hir. Yn ogystal, mae Cynghrair Seiriol yn llwyddiannus. |
| **43. Mae'r Awdurdod wedi gwneud ei benderfyniad o flaen llaw.** | Fel nodwyd yn y dogfennau ymgynghori, mae'r Awdurdod o hyd yn awyddus i glywed barn rhanddeiliaid ar y ffordd ymlaen o ran darpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol. Ni wnaethpwyd penderfyniad tan y derbyniwyd adborth gan y rhanddeiliaid fel rhan o'r prosesau anstatudol a statudol. Cyflwynwyd adroddiadau ar y prosesau ymgynghori i'r Pwyllgor Gwaith iddo allu gwneud ei benderfyniadau. |
| **44. Mae fy mhlentyn yn "hapus ac wedi ei ymglymu mewn ysgol" ac nid oedd rhieni eisiau gorfod trosglwyddo eu plentyn/plant i ysgol arall / teulu yn dymuno magu eu plentyn ym Miwmares ond yn annhebygol o wneud hynny rŵan. Wedi dewis Biwmares** | Fel y disgrifir uchod, aseswyd nifer o ffactorau gan y Pwyllgor Gwaith cyn iddo wneud ei benderfyniad ar 18 Gorffennaf 2018. Pan fo unrhyw blentyn yn symud i ysgol arall, bydd ef neu hi'n derbyn yr un safon o ofal. Fodd bynnag, os oes gan blentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Datganiad sy'n adnabod Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) plentyn, amcan y Datganiad yw sicrhau bod y plentyn yn derbyn y gefnogaeth gywir i'w alluogi / ei galluogi i wneud cynnydd yn yr ysgol. Byddai'r Datganiad hwn yn aros yn ddilys i unrhyw blentyn dan sylw pa bynnag ysgol y maent yn ei mynychu. |

**Adroddiad Gwrthwynebu**



| | |
|---|---|
| **i yrru ei phlentyn oherwydd yr amgylchedd gofalgar ac anogol a welodd pan oedd ei phlentyn yn mynychu Cylch Little Puffins.** | |
| **45. Anghytunodd rhai â'r ffigyrau ôl-groniad cynnal a chadw** | Cost ôl-groniad cynnal a chadw yw'r gost a gysylltir â chodi cyflwr yr adeilad i fyny i'r cyflwr disgwyliedig sy'n ddiogel ar gyfer disgyblion, staff, rhieni a defnyddwyr eraill o'r ysgol, h.y. gwaith sy'n cydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch statudol. Mae swm Ysgol Biwmares yn adlewyrchu'r radd gyflwr [C], sy'n nodi bod nifer o ddiffygion sydd angen sylw yn yr ysgol. |
| **46. "Ymddangos yn wrthnysig bod CSYM i fod i gymryd camau i wanhau gallu'r sefydliad (e.e. Biwmares) er mwyn cyflawni'r rôl a ddisgwylir ganddo gan y system cynllunio strategol".** | Nid oes gofyniad i gynlluniau datblygu lleol "ddarparu addysg". Mae awdurdodau cynllunio lleol yn paratoi cynlluniau datblygu lleol sy'n darparu fframwaith polisi statudol, sy'n cael ei gymhwyso i gynigion sydd angen caniatâd cynllunio i ddatblygu tir ac adeiladau yn ardal y cynllun yn ystod cyfnod penodol o 15 mlynedd. Nid oes angen caniatâd cynllunio i gau ysgolion. Ond, er enghraifft, os yw'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael wrth baratoi cynllun datblygu lleol yn dangos bod angen diogelu tir ar gyfer ysgol newydd, yna dylai'r Cynllun gynnwys polisi sy'n hwyluso datblygiad yr ysgol newydd honno, a dyrannu dyraniad tir gan y Cyngor i'r ysgol newydd honno ar fapiau cynigion y Cynllun.<br>Ymddengys bod y sylw yn cyfeirio at rôl Biwmares yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. Mae Biwmares yn cael ei adnabod fel Canolfan Gwasanaethau Lleol yn Strategaeth Aneddiadau'r Cynllun. Pan fydd awdurdodau cynllunio lleol yn paratoi eu cynlluniau datblygu lleol, maent yn ymgymryd ag asesiadau setliad i lywio penderfyniadau am bolisïau ynglŷn â lle y dylid datblygu datblygiad yn ofodol er mwyn sicrhau patrwm twf cynaliadwy. Mae'r asesiadau'n edrych ar rôl a swyddogaeth lleoedd, sy'n cynnwys casglu gwybodaeth am gyfleusterau a gwasanaethau o fewn pob anheddiad. Gwnaed y gwaith hwn i lunio Strategaeth Aneddiadau'r Cynllun a'i Strategaeth Ofodol. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu rôl a |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| | swyddogaeth yr anheddiad yn cynnwys casglu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael ar yr adeg honno ym mhob tref a phentref. Roedd y gwasanaethau a'r cyfleusterau a edrychwyd yn cynnwys ysgolion cynradd. Ond roedd hefyd yn edrych ar ddarpariaeth cyflogaeth, darpariaeth adwerthu a chyfleoedd cludiant. Ar ôl cymhwyso system sgorio, ystyriwyd bod Biwmares yn cyd-fynd â diffiniad Canolfan Gwasanaethau Lleol o ran ei rôl a'i swyddogaeth o fewn ardal y Cynllun. Felly, roedd presenoldeb ysgol gynradd ym Miwmares yng nghyfnod paratoi'r Cynllun yn un o'r nifer o faterion a ystyriwyd yn unig, ac nid dyna oedd y ffactor pennu. |
| **47. Byddai ffederaleiddio yn opsiwn haws.** | Ystyriwyd ffederaleiddio yn 3 o’r 20 opsiwn a ystyriwyd yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol, sef opsiwn 8, 14 ac 17. Sgoriodd y tri opsiwn hyn yn is na’r opsiwn a ddaeth yn opsiwn dewisol. Aseswyd a sgoriwyd yr opsiynau posib ochr yn ochr â nifer o opsiynau eraill yn erbyn 11 o ffactorau fel yr amlinellir yn yr adroddiad ar y broses ymgynghori anstatudol sef:<br>1. Codi safonau addysgol<br>2. Lleihau nifer y lleoedd gweigion<br>3. Lleihau’r amrywiaeth yn y gost fesul pen<br>4. Sicrhau bod adeiladau ysgolion yn creu’r amgylchedd dysgu gorau bosib<br>5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch<br>6. Cynyddu’r capasiti arweinyddol<br>7. Defnydd cymunedol o’r adeilad ysgol<br>8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog<br>9. Ffactorau daearyddol a theithio<br>10. Costau<br>11. Argaeledd tir<br>Sgoriodd yr opsiynau posib hyn fel a ganlyn:<br>Opswn 8 – 64 pwynt; Opsiwn 14 – 73 pwynt; Opsiwn 17 - 68 pwynt<br>O’i gymharu â 79 ar gyfer yr opsiynau a ffafrir h.y. |

**Adroddiad Gwrthwynebu**

<table>
<tr><td></td><td>Opsiwn 2 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi'r dewis i rieni yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ac efallai ffederaleiddio (79 pwynt)<br>Opsiwn 3 – Cau Ysgol Biwmares a rhoi'r dewis i rieni yrru eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd (79 pwynt)<br>Ni fyddai ffedereiddio'r ddwy ysgol yn cyfeirio lleoedd gweigion, cyflwr yr adeiladau nac ychwaith o angenrheidrwydd yn arwain at arbedion ariannol.</td></tr>
<tr><td>48. Bod yr Awdurdod Addysg Lleol wedi gweithio'n strategol dros gyfnod o amser i leihau'r nifer o blant yn yr ysgol.</td><td>Penodir bob pennaeth i'r swydd yn dilyn proses gyfweld fanwl ac mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gwrdd â meini prawf gosodedig.<br>Yn bendant, nid yw "lleihau niferoedd" mewn ysgol yn un o'r meini prawf. Yn wir, mae'r arian a gaiff bob ysgol yn dibynnu'n rhannol ar niferoedd disgyblion ac felly, byddai penaethiaid eisiau annog disgyblion i fynychu eu hysgol yn hytrach na lleihau niferoedd.</td></tr>
<tr><td>49. Am nifer o flynyddoedd, mae dyfodol yr ysgol wedi bod mewn amheuaeth ac mae rhieni, sy'n bryderus am eu bod eisiau i'w plant fynd i'r un ysgol gynradd am 7 mlynedd, yn aml wedi dewis ysgolion eraill yn yr ardal a thu hwnt o'r dechrau, er mwyn sicrhau lle 'cyn i'r prysurdeb ddechrau'.</td><td>Isod ceir tabl o'r nifer o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Biwmares dros y blynyddoedd diwethaf:<br><table><tr><th>1996</th><th>2001</th><th>2006</th><th>2007</th><th>2008</th><th>2009</th><th>2010</th><th>2011</th><th>2012</th><th>2013</th><th>2014</th><th>2015</th><th>2016</th><th>2017</th><th>2018</th></tr><tr><td>189</td><td>144</td><td>108</td><td>124</td><td>117</td><td>103</td><td>90</td><td>92</td><td>81</td><td>71</td><td>56</td><td>50</td><td>39</td><td>40</td><td>42</td></tr></table><br>Dechreuodd y gostyngiad mewn niferoedd dros 20 mlynedd yn ôl ac mae'n amlwg bod demograffeg yn ffactor yn fan hyn.</td></tr>
</table>

**Adroddiad Gwrthwynebu**

| | |
|---|---|
| **50. “A yw’r ysgol wedi bod mewn ‘mesurau arbennig’? Mae hyn wedi arwain at leihad mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgol. Mae niferoedd bellach yn lleihau’n anochel oherwydd cynlluniau’r cyngor i gau’r ysgol.”** | Cynhaliodd Estyn arolwg o Ysgol Gynradd Biwmares yn Ionawr 2014. Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ar y ddogfen ymgynghori statudol, rhoddwyd gradd Digonol i’r ysgol ar y 3 cwestiwn allweddol, a gosodwyd yr ysgol yng nghategori monitro Estyn. Dychwelodd Estyn am ymweliad monitro ym Mawrth 2015 a nododd yn ei adroddiad: “Barnir bod Ysgol Gynradd Biwmares wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol yn dilyn ymweliad Estyn ym Mawrth 2015. Byddwn yn awr yn tynnu enw’r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â’r arolwg hwn.” |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **7 Mawrth 2019** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio Ysgolion – Adroddiad Gwrthwynebu, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>E-bost: | **Carol Sorahan**<br>**carolsorahan@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Y Cynghorydd Bob Parry**<br>**Y Cynghorydd Dylan Rees**<br>**Y Cynghorydd Nicola Roberts** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Rhesymau:**
Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013, cyhoeddodd y Cyngor Rybudd Statudol ar y **14 Ionawr 2019** o'i fwriad i:

a. **Gynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn.**

Cyhoeddwyd y rhybudd statudol ar 14 Ionawr 2019, gyda cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig .Felly , daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 10 Chwefror 2019.

**Derbyniwyd 23 gwrthwynebiad i'r cynnig uchod.**

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae angen i'r cynigydd neu'r cynigwyr, sef Cyngor Sir Ynys Môn yn yr achos hwn, gyhoeddi adroddiad yn disgrifio unrhyw wrthwynebiad a gafwyd h.y. adroddiad gwrthwynebu. Gweler yr adroddiad gwrthwynebu yn **Atodiad 1**.

Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn delio gyda gwrthwynebiad i rybudd statudol yn dilyn trefn sydd sydd yn y Còd Trefniadaeth Ysgolion sydd mewn grym ers mis Hydref 2013.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, adran 5.3, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith "benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau."

**Argymhelliad**
Ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau, argymhellir y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo'r cynnig gwreiddiol sef **:**

**I gynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn.**

Gwneir hyn drwy:

- Ddefnyddio'r adeilad presennol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 h.y. blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu;
- Adeiladu "bloc" newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2;
- Ystyried ail-leoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar gampws Ysgol y Graig.
  Byddai'r "bloc" newydd yn rhan o Ysgol y Graig, nid yn uned ar wahân.
  Nodwyd gan Aelodau Etholedig yn eu penderfyniad gwreiddiol y dylai'r trefniant newydd weithredu fel un ysgol, nid fel dwy uned ar wahân.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

**Cyflwynir cefndir moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni a'r opsiynau a ystyriwyd, yn nhrefn dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith isod:**

**Cyfarfod Pwyllgor Gwaith: 19 Rhagfyr 2016**
Yn wreiddiol, ystyriwyd 21 o opsiynau gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr 2016 ar gyfer darpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni, ac amlinellwyd y rhesymau dros ddiystyru rhai o'r opsiynau yn yr adroddiadau ymgynghori.

Mae gwerthusiad o'r 21 opsiwn ar gael yn yr adroddiad, drwy'r ddolen ganlynol:
http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s10955/School%20Modernisation%20-%20Llangefni%20area.pdf?LLL=0

Rhoddodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor awdurdod i swyddogion barhau â'r broses ymgynghori statudol, ac i ymgynghori ar **Opsiwn A a B** fel yr amlinellir isod er mwyn moderneiddio darpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni.
Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng 31 Ionawr 2017 a 13 Mawrth 2017.

**Opsiwn A**
Byddai'n yn seiliedig ar:
Opsiwn 3 – Adeiladu ysgol newydd i ddisodli Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.
Opsiwn 6a – Adeiladu ysgol gynradd newydd yng Ngaerwen neu ar safle amgen i gynnwys 150 o ddisgyblion yn lle'r Ysgol Esgeifiog bresennol.
Opsiwn 7 – Ehangu Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn. Cau Ysgol Talwrn. Bydd angen ymgynghoriad pellach ar yr opsiwn o ehangu Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn.
Opsiwn 9 – Addasiadau i Ysgol Henblas.

**Opsiwn B**
Byddai'n seiliedig ar:
Opsiwn 3 – Adeiladu ysgol newydd i ddisodli Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.
Opsiwn 8 – Addasiadau i Ysgol Esceifiog.
Opsiwn 7 – Ehangu Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn. Cau Ysgol Talwrn. Bydd angen ymgynghoriad pellach ar yr opsiwn o ehangu Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn.
Opsiwn 9 – Addasiadau i Ysgol Henblas.

Gall y ddau opsiwn uchod hefyd gynnwys ffederaleiddio Ysgol Henblas ag ysgol arall. Mae'r

gwahaniaeth rhwng Opsiwn A ac Opsiwn B yn berthnasol i Ysgol Esceifiog.

**Cyfarfod Pwyllgor Gwaith: 17 Gorffennaf 2017**
Yn dilyn etholiadau lleol a chyffredinol, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2017 bod angen ymgynghoriad pellach ar yr opsiwn i addasu Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion o Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn, a chynhaliwyd hyn o 26 Medi 2017 tan 13 Tachwedd 2017.

**Cyfarfod Pwyllgor Gwaith: 26 Mawrth 2018**
Gan fod seibiant a chyfnod adolygu wedi dilyn rhwng 18 Rhagfyr 2017 a 9 Chwefror 2018, roedd yr adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol (26 Medi 2017 – 13 Tachwedd 2017) yn hwyr yn cael ei gyflwyno.
Er mwyn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013, mae'n rhaid cyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol o fewn 13 wythnos i'r dyddiad a ddaw'r ymgynghoriad i ben. Yn hyn o beth penderfynodd y Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn:
"I ohirio penderfyniad ynglŷn â moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni mewn perthynas ag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn tan y cwblheir proses ymgynghori statudol newydd".

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori statudol newydd rhwng 1 Mai 2018 a 18 Mehefin 2018.

**Cyfarfod Pwyllgor Gwaith: 16 Gorffennaf 2018**
Yn dilyn cyfnod ymgynghori pellach (1 Mai 2018 - 18 Mehefin 2018), penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar 16 Gorffennaf 2018 i:

**Gynyddu capasiti Ysgol y Graig er mwyn gwneud lle i ddisgyblion o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn**.

Gwneir hyn drwy:
- Ddefnyddio'r adeilad presennol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 h.y. blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu;
- Adeiladu "bloc" newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2;
- Ystyried ail-leoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar gampws Ysgol y Graig.

(Byddai'r "bloc" newydd yn rhan o Ysgol y Graig, nid yn uned ar wahân.
Nodwyd gan Aelodau Etholedig yn eu penderfyniad gwreiddiol y dylai'r trefniant newydd weithredu fel un ysgol, nid fel dwy uned ar wahân)

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion.

**D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydyw

**DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydyw – Cymeradwywyd yr Achos Amlinellol Strategol (AAS) / Achos Busnes Amlinellol (ABA) gan y Pwyllgor Gwaith ar 26 Tachwedd 2018, ac ar ôl hynny gan Lywodraeth Cymru ar 12 Chwefror 2019.

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Wedi eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad hyn |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Wedi eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad hyn |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cofnodion Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12 Mawrth 2018 a 5 Gorffennaf 2018 |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Wedi eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad hyn |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Wedi eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad hyn |
| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Ddim yn berthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim yn berthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Bydd camau lliniaru yn rhan o'r cais cynllunio |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Ddim yn berthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn berthnasol |
| **7** | **Arall** | Ddim yn berthnasol |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Adroddiad Gwrthwynebiadau |

**G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

1. Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 19 Rhagfyr 2016,17 Gorffennaf 2017,26 Mawrth 2018 a 16 Gorffennaf 2018.
2. Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer 12 Mawrth 2018 a 5 Gorffennaf 2018.
3. Dogfennau Ymgynghori Anstatudol a Dogfennau Ymgynghori Statudol ac Adroddiadau Ymgynghori.
4. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.
5. Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.
6. Rhybudd statudol dyddiedig 14 Ionawr 2019

**ATODIAD 1**

**Adroddiad Gwrthwynebu – Ysgol y Graig a Ysgol Talwrn**

1. **Cefndir**

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013, cyhoeddodd yr Awdurdod **Rybudd Statudol** o'i fwriad i:

> **Gynyddu capasiti ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn , a chau Ysgol Talwrn**.

Cyhoeddwyd y **Rhybudd Statudol** ar 14 Ionawr 2019 a roedd cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig. Felly, daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 10 Chwefror 2019. **Derbyniwyd 23 o wrthwynebiadau ar ffurf llythyrau ac e-byst i'r cynnig uchod.**

Dan adran 49 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'n rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr adroddiad gwrthwynebu") – sef y ddogfen hon.

Cyhoeddwyd y rhybudd statudol i gychwyn ar 22 Tachwedd 2018. Golygodd hyn bod y cyfnod gwrthwynebu hwy na 28 diwrnod wedi dod i ben ar 27 Rhagfyr 2018. Gwrthwynebodd sawl rhanddeiliaid i'r cyfnod hwn ddod i ben yn ystod gwyliau'r Nadolig.
Felly, i roi amser ychwanegol i'r rhanddeiliaid, cyhoeddwyd rhybudd statudol ychwanegol ar 14 Ionawr 2019, a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 10 Chwefror 2019.

**Gweler yn y tabl isod ,grynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny.**

**Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau i'r Rhybudd Statudol – Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**

| | Crynodeb o Wrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| 1. | **Nid yw'r Cyngor wedi ymgynghori'n ddigonol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Ni ymgynghorwyd â Grŵp Rhiant a Phlentyn Talwrn yn ffurfiol gan nad oedd y plant yn ddisgyblion presennol yn Nhalwrn, ni roddwyd cyfle ffurfiol iddynt ymateb fel partïon â diddordeb.** | Mae'r cod yn nodi lle bo modd bod rhaid rhoi gwybod i" ddarpar rieni "drwy lythyr neu e-bost ynghylch argaeledd y ddogfen ymgynghori.<br><br>Cynghorwyd rhieni gan yr ysgol ar ran y Cyngor ynglŷn ag argaeledd y dogfennau ymgynghori a'r ffurflen adborth.<br><br>Croesawodd y Cyngor bob sylw gan bartïon â diddordeb yn y sesiynau galw i mewn (Ysgol Talwrn 16 Mai 2018), drwy ei wefan ei hun a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Hyrwyddwyd y sesiynau galw i mewn ar dudalennau Facebook a Twitter y Cyngor. |
| 2. | **Ni ystyriwyd barn y disgyblion fel rhan o'r ymgynghoriad.** | Ymwelodd swyddogion y Cyngor ag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn fel rhan o'r ymgynghoriad i gasglu barn y disgyblion ar y cynnig.<br><br>Ymgynghorwyd â'r Cynghorau Ysgol yn y ddwy ysgol, ac ar gais rhieni yn Ysgol Talwrn cafodd grŵp o blant o wahanol oedrannau gyfle i gyfrannu ymhellach at yr ymgynghoriad.<br><br>Cyhoeddwyd eu sylwadau yn yr adroddiad a aeth i'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Gorffennaf 2018, a gymerwyd i ystyriaeth fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad. |
| 3. | **Mae nifer y disgyblion wedi cynyddu o 420 i 480 o'r ymgynghoriad. Ni thrafodwyd na chymeradwywyd hyn gan y Pwyllgor** | Nid yw niferoedd disgyblion o 420 (4-11 oed) yn cynnwys niferoedd disgyblion meithrin.<br><br>Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, niferoedd y meithrin yn Ionawr 2018 oedd Ysgol y Graig 52 a Thalwrn 7, ac felly bydd angen capasiti o 480 ar yr Ysgol y Graig ehangedig. |

| | Crynodeb o Wrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | **Gwaith. Dim awdurdod i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i 480.**<br><br>**Noda'r cod trefniadaeth ysgolion: "pan fydd opsiwn newydd yn dod i'r amlwg yn ystod ymgynghoriad ac y mae'r cynigwyr yn penderfynu ei ystyried, rhaid iddynt ymgynghori eto ar yr opsiwn hwn cyn symud ymlaen i gyhoeddi'r cynigion."** | Nid yw hwn felly'n opsiwn newydd ac felly nid oes angen ymgynghoriad arall. |
| **4.** | **Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn wedi cynyddu ers yr ymgynghoriad. Mae cyfrifiad 2019 yn awgrymu bod 45 o ddisgyblion yn mynychu (capasiti o 49)** | Er bod y nifer o ddisgyblion wedi cynyddu, mae'r gost y pen yn Ysgol Talwrn yn parhau i fod yn uwch nag Ysgol y Graig. Cost y pen 2018/19 – Ysgol y Graig £3,369 ac Ysgol Talwrn £4,571.<br><br>Mae canran y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Talwrn wedi cynyddu o 45% ym mis Medi 2017 i 53% ym mis Medi 2018. |
| **5.** | **Mae'r adroddiad Estyn diweddar ar gyfer Ysgol Talwrn dan Bennaeth newydd yn dda – pam y byddech eisiau cau'r ysgol?** | Yn ei grynodeb o'i ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Estyn:<br><br>"Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal o leiaf." Yn ogystal â hyn, roedd yr arolygiaeth o'r farn fod yr "awdurdod lleol wedi rhoi sail resymegol glir ar gyfer y manteision disgwyliedig a fwriedir o |

| | Crynodeb o Wrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | | gymharu â'r sefyllfa bresennol o ran cyllid, lleoedd dros ben, safonau disgyblion, ansawdd yr amgylchedd dysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth.<br><br>Hefyd, mae'r cynigiwr yn esbonio'n briodol sut mae'r cynnig yn cydweddu â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yr awdurdod.<br><br>Mae'r cynnig yn diffinio manteision disgwyliedig y cynnig yn glir, ac mae'r rhain yn cysylltu'n briodol â'r diben datganedig a'r sail resymegol. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod y cynllun yn debygol o gynnal safon addysg yn yr ardal o leiaf." |
| **6.** | **Heb gydymffurfio'n llawn ag adran 1.7 o Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 gan na gynhwyswyd unrhyw ddeunydd sy'n "adnabod yr effaith gyffredinol o gau ysgol ar y gymuned leol ...yn benodol mewn ardaloedd gwledig" yn yr ymgynghoriad.**<br><br>**Yn ystod y cyfnod ymgynghori, methodd y Cyngor ag atodi un ai Asesiad Risg yr Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r pecyn ymgynghori.** | Cyfeiria'r ddogfen ymgynghori (1 Mai – 18 Mehefin 2018) at ddatblygiadau tai, teithio a ffactorau daearyddol yn ogystal â'r effaith ar yr iaith Gymraeg.<br><br>https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cymryd-rhan/Ymgynghoriadau-blaenorol/Ymgynghoriad-Ysgol-y-Graig-ac-Ysgol-Talwrn.aspx<br><br>Noda'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 12 Mawrth 2018 bod "asesiad effaith wedi'i gynnal fel rhan o'r broses ymgynghori statudol. Aseswyd yr effaith bosib o gyflawni'r cynnig ar yr iaith Gymraeg, ar gydraddoldeb ac ar y gymuned."<br><br>https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s12248/Moderneiddio%20Ysgolion%20Llangefni%20TERFYNOL.pdf?LLL=1<br><br>Roedd yr asesiad effaith cyflawn (wedi'i ddyddio Ebrill 2018) ar gael gyda'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith wedi'i ddyddio 16 Gorffennaf 2018:<br><br>https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s12710/Moderneiddio%20Ysgolion%20TERFYNOL.pdf?LLL=1 |

| | Crynodeb o Wrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| **7.** | **Lle bo'r cynnig yn cynnwys cynyddu neu leihau'r capasiti, mae'n rhaid nodi'r nifer cyfredol o ddisgyblion a'r capasiti arfaethedig. Dim ond y capasiti terfynol a nodwyd ar y Rhybudd Statudol.** | Mae'r rhybudd statudol yn nodi mai capasiti'r ysgol ehangedig fydd 480. Mae'r rhybudd yn ymgorffori adran 42 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Cymru 2013.<br><br>Mae adran 43 yn cyfeirio at y cynigion i gau ysgol, sef Ysgol Talwrn yn yr achos hwn, felly nid yw'n ofyn dan y cod i nodi'r nifer cyfredol o ddisgyblion. |
| **8.** | **Goblygiadau ar ddarpariaeth trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol – ddim wedi'i nodi yn y rhybudd statudol.** | Mae'r rhybudd statudol yn cyfeirio at bolisi trafnidiaeth y Cyngor sydd ar gael ar :<br><br>https://www.anglesey.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Dysgu-gydol-oes/Teithio/Polisi-Cludiant-Ysgol-06-2017.pdf |
| **9.** | **Trefniadau Trafnidiaeth – dim cadarnhad bod y Cyngor am fod yn talu am drafnidiaeth i ddisgyblion Talwrn sy'n byw llai na 2 filltir oddi wrth Ysgol y Graig.** | Nodwyd y trefniadau trafnidiaeth yn y ddogfen ymgynghori 1 Mai 2018 – 18 Mehefin 2018 fel a ganlyn:<br><br>Mae'r ALl (Awdurdod Lleol) yn darparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion ysgol gynradd sy'n byw **2 filltir** neu fwy oddi wrth yr ysgol sydd yn y dalgylch y maent yn byw ynddo.<br><br>Mae'r un polisi hefyd yn nodi:<br><br>"ni ddarperir trafnidiaeth i ddisgyblion meithrin rhan amser" ac<br><br>"Mae'r ALl yn darparu trafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion dan 16 fel a ganlyn: a) I ddisgyblion nad ydynt yn gymwys am drafnidiaeth... ond sy'n teithio i'r ysgol ar hyd llwybr a gaiff ei ystyried yn beryglus gan y Cyngor Sir." |

| | Crynodeb o Wrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| 10. | **Ni chyflwynwyd y gost o brynu tir i rieni mewn cyfarfodydd ymgynghori.** | Nid oedd y wybodaeth ar gael ar y pryd ,ac ni fyddai'n wybodaeth cyhoeddus ,oherwydd ei sensitifrwydd masnachol. |
| 11. | **Mae'r rhybudd yn anghyfreithlon – ac fe ddylech ei dynnu'n ôl.** | Drwy drafodaeth â Swyddogion Llywodraeth Cymru, derbyniodd Swyddogion y Cyngor lythyr yn rhoi caniatâd i'r Cyngor ail-gyhoeddi'r rhybudd statudol i ddiben eglurder, a chytunwyd cyfnod newydd o amser. O ganlyniad, ymgymerwyd â'r rhybudd statudol a gyhoeddwyd ar 14 Ionawr 2019 yn ôl y disgwyliadau, a cafodd ei wirio gan Swyddogion Cyfreithiol y Cyngor cyn ei gyhoeddi. |
| 12. | **Nid yw'r cynnig yn cyfeirio at y galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion o ganlyniad i'r gyfradd enedigaethau gynyddol a chynigion am ddatblygiadau tai yn nyfodol ardal Llangefni** | Cyfeiria'r ddogfen ymgynghori (1 Mai 2018 – 18 Mehefin 2018) at y galw am leoedd mewn ysgolion (tudalen 12), a cyfeiria atodiad 2 at ddatblygiadau tai yn yr ardal.<br><br>https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cymryd-rhan/Ymgynghoriadau-blaenorol/Ymgynghoriad-Ysgol-y-Graig-ac-Ysgol-Talwrn.aspx |
| 13. | **Nid yw'r Cyngor wedi archwilio'n ddigonol i opsiynau amgen i gau Ysgol Talwrn megis uno ag ysgol o faint tebyg, neu ffederaleiddio ag ysgol arall.** | Yn Atodiad 1 o'r ddogfen ymgynghori (1 Mai 2018-18 Mehefin 2018), ystyriwyd 21 o opsiynau ar gyfer yr ardal, gan gynnwys y canlynol mewn perthynas ag Ysgol Talwrn:<br><br>https://www.anglesey.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Ymgynghoriadau/2018/Talwrn/Dogfen-Ymgynghori-Statudol-–-Ardal-Llangefni.pdf |

| | **Crynodeb o Wrthwynebiadau** | **Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau** | |
|---|---|---|---|
| | | **Syniad** | **Arsylwadau** |
| | | Cael Cyfnod Sylfaen y 6 ysgol yn **Ysgol Talwrn**. | Capasiti Ysgol Talwrn yw 49. Byddai angen adeilad i thua 410 o ddisgyblion ar gyfer disgyblion Cyfnod Sylfaen yr ardal yn unig. |
| | | Credai rhai bod "tir ar gael i adeiladu ger neuadd dref **Talwrn**" a bod angen crynodeb o gostau caban (£250k). | Maint lleiafsymiol yr ysgol hon fyddai 150 sef maint Ysgol Rhyd y Llan, ac mae angen 5 erw ar gyfer yr ysgol. Yn ôl swyddogion Eiddo'r Cyngor, nid oes 5 erw ar gael yn y pentref. |
| | | Gofynnwyd pam nad yw **Ysgol Llanbedrgoch** yn rhan o hyn. | Rhwng y ddwy ysgol (Llanbedrgoch a Thalwrn), byddai 70-80 o ddisgyblion yn yr ysgol, sy'n rhy fach i ddenu cyllid. Ni fyddai ffederaleiddio'r ddwy ysgol yn ymdrin â lleoedd gweigion na chyflwr yr adeiladau. |
| | | "Os caeir Ysgol Talwrn, a ddylid gyrru'r disgyblion i Pentraeth?" | Nid oes lle yn Ysgol Pentraeth i ddisgyblion Ysgol Talwrn os caeir Ysgol Talwrn. |
| **14.** | **Methiant i gydymffurfio â Rheoliad 48, h.y. mae'r Cyngor wedi newid gyrrwr statudol allweddol hanner** | Cafodd y rhybudd blaenorol a gyhoeddwyd ar 28 Tachwedd 2018 ei ddisodli gan y rhybudd a gyhoeddwyd ar 14 Ionawr 2019. Gweler pwynt 11. | |

| | Crynodeb o Wrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| | **ffordd drwy gyfnod rhybudd estynedig, ac wedi cyhoeddi rhybudd statudol newydd yn ffurfiol, cyn tynnu'r rhybudd statudol gwreiddiol yn ôl yn ffurfiol.** | |
| **15.** | **Methiant i gydymffurfio ag Adran 49:**<br><br>**Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at y cynigydd cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y cynigion eu cyhoeddi (y cyfnod gwrthwynebu).**<br><br>**Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar ddydd Sul (10/2/19), pan nad oedd swyddfeydd y Cyngor yn agored ac nid oedd gwasanaethau post, felly rhoddwyd 27 diwrnod i wrthwynebwyr ymateb yn hytrach na 28 diwrnod.** | Dywed y cod fod rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad a gyhoeddwyd y cynnig (y cyfnod gwrthwynebu).<br><br>Nid yw'r cod yn cyfeirio at 28 diwrnod gwaith.<br><br>Gallai gwrthwynebwyr yn yr achos hwn fod wedi e-bostio eu gwrthwynebiadau tan ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, neu ddanfon eu gwrthwynebiadau â llaw a'u postio drwy flwch post y Cyngor tan ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. |

| | Crynodeb o Wrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
| **16.** | **Methiant i gyhoeddi crynodeb o wrthwynebiadau yn dilyn y rhybudd statudol gwreiddiol wedi'i ddyddio 28/11/18.** | Ni chyhoeddwyd crynodeb o wrthwynebiadau yn dilyn y rhybudd statudol gwreiddiol 28/11/18, gan fod y rhybudd wedi'i ail-gyhoeddi ar 14/1/19. Cyhoeddir gwrthwynebiadau i'r rhybudd statudol ynghyd ag ymateb y Cyngor erbyn 10 Mawrth 2019, a cânt eu hystyried gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor fel rhan o'r broses benderfynu ddemocrataidd. |
| **17.** | **Rhieni'n bryderus ynglŷn â'u plant yn gadael ysgol wledig i fynychu ysgol dref fawr ac yn methu ag ymdopi.** | Rhoddir mesurau ar waith i sicrhau pontio esmwyth gan yr ysgol fawr, sef Ysgol y Graig yn yr achos hwn.<br><br>Er enghraifft: Cynhelir ymweliadau i ddisgyblion o'r ysgol lai sef Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig cyn y trosglwyddo, yn ogystal â digwyddiadau cymdeithasol i ddisgyblion a rhieni Ysgol Talwrn gael ymweld ag Ysgol y Graig. |
| **18.** | **Staff Ysgol Talwrn yn codi pryderon ynglŷn â'u swyddi yn y dyfodol.** | Cyfeirir at faterion staffio yn y ddogfen ymgynghori fel a ganlyn:<br><br>Yn unol â gofynion statudol, pan ffurfir ysgol newydd, mae'n rhaid hysbysebu swydd y Pennaeth yn agored. Ni fyddai hyn yn berthnasol yn yr achos hwn. Ar gyfer gweddill y staff, cyngor yr Awdurdod i gyrff llywodraethu ysgolion neu i gyrff llywodraethu cysgodol ysgolion yw adleoli staff o'r ysgol(ion) sydd/a fydd yn cau i swyddi sy'n dod ar gael yn yr ysgol y mae'r plant yn symud iddi.<br><br>Mewn sefyllfa lle gall ysgol gau, ymglymir proses diswyddo'r Awdurdod. Byddai Dogfen Ymgynghori Staffio yn cael ei pharatoi a byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal ag aelodau unigol o staff i ganfod a fyddent eisiau aros yn rhan o'r broses ai peidio. Disgwylir i'r broses ddechrau o gwmpas 12/18 mis cyn dyddiad cau swyddogol yr ysgol – gwneir hyn i roi sicrwydd cynnar i staff ynglŷn â'u cyflogaeth ac i ganiatáu iddynt wneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol. |
| **19.** | **Anghytuno â'r costau atgyweirio a chynnal a chadw a gyhoeddwyd ar** | Cyfrifwyd y costau atgyweirio a chynnal a chadw gan syrfewyr cymwysedig, fel y gwneir â holl gostau atgyweirio a chynnal a chadw ar draws holl asedau'r Cyngor. |

Tudalen 41

|  | Crynodeb o Wrthwynebiadau | Ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau |
|---|---|---|
|  | **gyfer Ysgol Talwrn yn yr adroddiad ymgynghori.** |  |
| **20.** | **Dim eglurhad ynglŷn â'r Corff Llywodraethu ar gyfer yr Ysgol y Graig ehangedig. Pryder na fydd cynrychiolaeth o Ysgol Talwrn ar y bwrdd llywodraethu.** | Bydd y Cyngor yn ystyried un ai sefydlu grŵp ymgysylltu rhanddeiliaid neu'n edrych ar gyfethol cynrychiolwyr o ardal Ysgol Talwrn ar Gorff Llywodraethu Ysgol y Graig. |
| **21.** | **Mae'r parcio yn Ysgol y Graig yn beryglus.** | Bydd asesiad effaith traffig yn cael ei gynnal, a bydd yn ymdrin â'r broblem traffig a pharcio o gwmpas yr ysgol. |
| **22.** | **Byddai uno Ysgol Talwrn ag Ysgol Llanbedrgoch yn opsiwn gwell (dwy ysgol wledig yn uno â'i gilydd)** | Rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol Llanbedrgoch, byddai 70-80 o ddisgyblion (3-11 oed) yn yr ysgol – mae'r trefniant dal yn rhy fach o safbwynt cynaliadwyedd. Ni fyddai ffederaleiddio'r ddwy ysgol yn ymdrin â lleoedd gweigion na chyflwr yr adeiladau. |
| **23.** | **Yr effaith ar Eisteddfod Talwrn os yw'r ysgol yn cau.** | Mae enghreifftiau yn bodoli lle mae'r gymuned yn parhau i ffynnu mewn pentrefi lle mae'r ysgol wedi cau. Mae Eisteddfodau'n parhau mewn pentrefi ym Môn lle nad oes ysgol e.e. Marianglas. |

Tudalen 42